# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2025-26 – Fersiwn Hawdd ei Darllen

**Mae'r adroddiad yma'n esbonio sut y gwnaeth Cynghorwyr wirio a gwella penderfyniadau'r Cyngor**

## Beth yw Craffu?



Craffu yw pan mae Cynghorwyr yn gofyn cwestiynau




Maen nhw'n gwirio bod penderfyniadau'n iawn



Maen nhw'n siarad ar ran trigolion

## Am beth mae'r adroddiad yma'n sôn?




Mae'r adroddiad yma'n esbonio beth mae **pedwar Pwyllgor Craffu'r** Cyngor wedi bod yn gweithio arno yn ystod 2025 a 2026.

Mae'n nodi'r pynciau maen nhw wedi'u trafod, gyda phwy maen nhw wedi gweithio a ble maen nhw'n gallu awgrymu newidiadau a fydd o fudd i drigolion RhCT. Maen nhw wedi trafod materion sydd, yn eu barn nhw, yn gallu gwneud gwahaniaeth i drigolion.

Maen nhw wedi **awgrymu newidiadau** i'r Cabinet, sy'n gwneud penderfyniadau'r Cyngor.



## Beth yw enwau'r pedwar Pwyllgor Craffu a beth ydyn nhw'n ei drafod?

**Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu** – Dyma'r prif bwyllgor ac mae'n trafod y pynciau cyffredinol sy'n effeithio ar drigolion a'r materion sydd, ym marn y Cyngor, yn bwysig i bawb yn RhCT.

**Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant** – Mae'r Pwyllgor yma'n trafod materion sy'n effeithio ar addysg, ysgolion, disgyblion a'u teuluoedd, a gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer pobl ifainc.

**Y Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned** – Mae'r Pwyllgor yma'n trafod materion sy'n cynnwys iechyd a lles pawb sy'n byw yn RhCT, sy'n golygu teimlo'n iach neu'n hapus. Pynciau megis gwasanaethau hamdden, gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ac iechyd y cyhoedd.

**Y Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant** – Mae'r Pwyllgor yma'n trafod materion megis gwastraff,

ailgylchu a phriffyrdd, a sut mae'r Cyngor yn chwarae ei ran i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

- Mae **14 Cynghorydd** ar bob Pwyllgor Craffu.

- Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal **bob mis**, neu'n fwy aml os bydd angen.

- Gall trigolion **wylio'r cyfarfodydd yn fyw** neu wylio'r recordiadau ar ôl iddyn nhw orffen.

- Gall trigolion hefyd ofyn i ddod i **gyfarfod wyneb yn wyneb.**

## Cyflawniadau Mawr



Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi gwneud 131 o awgrymiadau ar gyfer newid

Mae 27 o bobl o'r tu allan i'r Cyngor wedi dod i gyfarfodydd er mwyn helpu i roi cyngor a gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgorau

Maen nhw hefyd wedi anfon 11 o lythyron i'r Cabinet er mwyn gwneud newidiadau i syniadau penodol mewn adroddiadau

**Yr hyn y gwnaethon nhw ei drafod**



Edrychodd y **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu** yn fanwl ar sut mae'r Cyngor eisiau gwario arian cyn y cytunwyd arno, ac ar yr hyn a ddywedodd y cyhoedd, i sicrhau bod y broses yn deg trwy ofyn i gynifer o bobl â phosibl am eu barn.



Edrychodd y **Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant** ar newidiadau y mae'r Llywodraeth eisiau eu gwneud i Fwyta'n Iach mewn Ysgolion. (Ysgrifennodd lythyr i Lywodraeth Cymru gyda'i newidiadau awgrymedig o ran costau ac anghenion deietegol arbennig).



Cafodd y **Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned** gyfle i drafod yr adroddiad ar sut mae Cynhalwyr di-dâl yn cael cymorth cyn i'r Cabinet wneud unrhyw benderfyniadau. Awgrymodd nifer o newidiadau i sicrhau bod Cynhalwyr di-dâl yn cael y cymorth gorau.



Trafododd y **Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant** derfyn cyflymder 20mya Llywodraeth Cymru. Cododd Aelodau nifer o bwyntiau i'w hystyried, ochr yn ochr â'r hyn a ddywedodd y cyhoedd, i sicrhau bod y broses o newid terfyn cyflymder rhai ffyrdd yn ôl i 30mya yn digwydd yn ddiogel.

**Pa wahaniaeth wnaethon ni?**

**Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi gwneud gwahaniaeth trwy gynnig nifer o newidiadau i'r Cabinet feddwl amdanyn nhw cyn gwneud penderfyniadau.**

**Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi rhoi adborth yn rhan o nifer o ymgynghoriadau, a dyma sut y caiff pobl leisio eu barn cyn i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau.**

**Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi gweithio gyda phartneriaid, sefydliadau a grwpiau cymunedol pan oedd angen cyngor arbenigol a safbwynt arall, er mwyn helpu'r Cynghorwyr gyda'u gwaith.**

**Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi croesawu aelodau'r cyhoedd i'w cyfarfodydd, sy'n bwysig iawn er mwyn i'r Cyngor glywed eu barn.**

**Mae'r Pwyllgorau Craffu yn cynllunio at y dyfodol ac yn rhoi rhestr o bynciau i'w trafod at ei gilydd**

**bob blwyddyn. Mae hyn yn sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud.**

## Sut mae modd i chi gymryd rhan

- **Cewch chi wylio cyfarfodydd craffu ar-lein**
- **Cewch chi weld beth mae Cynghorwyr yn ei drafod**
- **Cewch chi gysylltu â'ch Cynghorydd lleol**
- **Cewch chi rannu'ch barn neu godi pryderon**
- **Cewch chi awgrymu pynciau i'w trafod**
- **Mae hyn yn helpu Cynghorwyr i ganolbwyntio ar faterion sy'n bwysig i chi**
- **Cewch chi ddarllen adroddiadau ar wefan y Cyngor**

## Y Flwyddyn Nesaf



**Mae'r Pwyllgorau Craffu yn RhCT eisiau parhau i wneud gwaith da y flwyddyn nesaf felly maen nhw wedi penderfynu canolbwyntio ar rai meysydd:**

- **Nod 1:** Gweithio gyda thrigolion RhCT ac annog rhagor o aelodau'r cyhoedd i fynd i gyfarfodydd.

- **Nod 2:** Parhau i edrych ar bynciau sy'n effeithio ar drigolion fel bod modd i'r Pwyllgorau Craffu wneud gwahaniaeth.

- **Nod 3:** Sicrhau bod aelodau'r Pwyllgorau Craffu'n cael y cymorth gorau posibl i gyflawni eu gwaith.